

DRAFFT TERFYNOL CANLLAWIAU A WNAED O DAN ADRAN 7
MESUR GWASTRAFF (CYMRU) 2010 – I GEFNOGI TARGEDAU
ADENNILL AWDURDOD LLEOL (LART)

Cynnwys	Tudalen
1.0 Cyflwyniad i'r Canllawiau	3
2.0 Targedau	4
3.0 Diffiniadau	5
3.1 Gwastraff i'w gynnwys fel Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol	5
3.1.1 Compostio yn y cartref	5
3.1.2 Pridd a rwbel	5
3.1.3 Cerbydau wedi'u gadael	5
3.1.4 Gwastraff ar ôl glanhau traethau	5
3.1.5 Bwrdd plastr	6
3.1.6 Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)	6
3.1.7 Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)	6
3.1.8 Teiars	6
3.1.9 Gwastraff clinigol	7
3.1.10 Deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gyliau	7
3.1.11 Asbestos	7
3.2 Ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio	7
3.2.1 Diffinio ailgylchu a defnyddio meini prawf Diwedd Oes Gwastraff	8
3.2.2 Diffinio paratoi i aildddefnyddio	9
3.2.3 Diffinio compostio	9
3.3 Ailgylchu gwastraff penodol	10

3.3.1	Pridd a rwbel	10
3.3.2	Gwastraff ar ôl glanhau traethau	10
3.3.3	Bwrdd plastr	10
3.3.4	Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)	10
3.3.5	Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)	10
3.3.6	Teiars	10
3.3.7	Gwastraff clinigol	10
3.3.8	Deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gylïau	11
3.3.9	Pren	11
4.0	Monitro ac adrodd	12
4.1	WasteDataFlow a gofynion adrodd	12
4.2	Cyrchfannau a chyfraddau gwrthod	12
4.3	Dyrannu deunydd a wrthodir a samplu mewn Cyfleusterau Adennill Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill	13
4.4	Mesur y gyfradd adennill (ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio) drwy WasteDataFlow	16

1.0 Cyflwyniad i'r Canllawiau

Daeth Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011¹ a Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011² i rym ar 30 Mawrth 2011. Mae'r ddau offeryn statudol wedi'u gwneud yn unol â darpariaethau Mesur Gwastraff (Cymru) 2010³ ac maent yn cefnogi Targedau Adennill Awdurdod Lleol (LART) a osodwyd yn y Mesur.

Diben y Canllawiau hyn, a luniwyd o dan adran 7 Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, yw egluro'r diffiniadau o ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn a'r gofynion monitro ac adrodd a geir yn y Rheoliadau.

Drwy'r Canllawiau cyfan, cyfeirir at 'Targedau Adennill Awdurdod Lleol' (LART), sy'n rhoi sylw i'r ffaith fod ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio (gan gynnwys treulio anaerobig) yn weithredoedd adennill. At ddibenion y targedau a osodwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ac yn y Canllawiau hyn, mae **'adennill' yn cyfeirio'n benodol at ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio (gan gynnwys treulio anaerobig) - fel y nodwyd yn adrannau 3(2) a 3(5) y Mesur.**

¹ S.I. 2011/551 (W 77)

² S.I. 2011/1014 (W 152)

³ 2010 nawm 8/Rhif 8

2.0 Targedau

Mae'r targedau a osodwyd yn adran 3(3) Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yn helpu i weithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cymdeithas ailgylchu o safon uchel. Gosodwyd y targedau yn dilyn ymgynghori helaeth drwy'r papurau Y Cyfeiriad i'r Dyfodol⁴, ymgynghoriad ar *Tuag at Ddyfodol Diwastraff a Chynllun y Sector Trefol*.

Mae pob targed yn berthnasol i awdurdodau lleol unigol yng Nghymru. Caiff y targedau eu monitro drwy gyfrwng Dangosyddion Perfformiad blynyddol, ac mae'r rhain yn deillio o ddata a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy'r gronfa ddata genedlaethol ar wastraff WasteDataFlow.

Mae'r targedau yn seiliedig ar gyfanswm net (h.y. heb gynnwys y deunydd a wrthodir) y tunelli o ddeunydd ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio (gan gynnwys treulio anaerobig) wedi'i rannu gyda chyfanswm tunelli'r gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol:

$$\text{Cyfanswm yr adennill (\%)} = \frac{\text{Cyfanswm ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio}}{\text{Cyfanswm gwastraff trefol awdurdod lleol}} \times 100$$

Y targedau a osodir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yw'r targedau adennill gofynnol (h.y. ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio).

Blwyddyn	2012-13	2015-16	2019-20	2024-25
Targed Adennill %	O leiaf 52	O leiaf 58	O leiaf 64	O leiaf 70

Dyma'r Targedau Adennill Awdurdod Lleol gofynnol (h.y. ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio) ar gyfer pob blwyddyn o 2012-13 ymlaen:

2012-13 = 52%
2013-14 = 52%
2014-15 = 52%
2015-16 = 58%
2016-17 = 58%
2017-18 = 58%
2018-19 = 58%
2019-20 = 64%
2020-21 = 64%
2021-22 = 64%
2022-23 = 64%
2023-24 = 64%
2024-25 = 70%

⁴ Roedd y papurau Y Cyfeiriad i'r Dyfodol yn gyfres o dri phapur trafod polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Hydref 2007 a mis Ebrill 2009.

3.0 Diffiniadau o beth yw gwastraff trefol yng nghyd-destun LART a osodwyd o dan adran 3(3) Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

Mae'n bwysig ystyried materion yn ymwneud â diffiniad yn eu tro. Yn adran 3.1 isod ceir eglurhad ynghylch beth yw gwastraff trefol awdurdod lleol. Yn adran 3.2, esbonnir pa rai o'r gwastraff hyn y gellid ei gyfrif yn ddeunydd wedi'i ailgylchu, wedi'i baratoi i'w aildddefnyddio neu wedi'i gompostio (gan gynnwys treulio anaerobig) ac yn adran 3.3 rhoddir sylw i ailgylchu gwastraff penodol.

3.1 Gwastraff i'w gynnwys fel gwastraff trefol awdurdod lleol

Yn unol ag adran 3(8) Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 mae gwastraff trefol awdurdod lleol yn cynnwys gwastraff a gesglir o dan adran 45 ac isadrannau (1)(b) a (3) adran 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae hefyd yn cynnwys gwastraff eraill fel y pennwyd dan orchymyn Gweinidogion Cymru o dan adran 3(8)(c) y Mesur, er nad oes dim Gorchymyn o'r fath wedi'i wneud hyd yna.

Dim ond gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol neu eu hasiantau o dan adrannau perthnasol Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (y cyfeiriwyd atynt uchod) a gaiff eu hystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol ac maent felly yn cyfrif at LART.-

Rhoddir sylw i fathau penodol o wastraff yn eu tro.

3.1.1 Compostio yn y cartref

Nid yw deunydd sydd wedi'i gompostio yn y cartref yn cael ei gasglu gan yr awdurdodau lleol yn unol ag adrannau 45 neu 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac nid yw felly yn wastraff trefol awdurdod lleol. **Nid** yw'n cyfrannu'n uniongyrchol at LART.

3.1.2 Pridd a rwbel

At ddibenion LART, mae pridd a rwbel a gludir i gyfleusterau (safleoedd amwynder dinesig a chanolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi) a ddarperir o dan adran 51(1)(b) a 51(3) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael eu hystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol.

3.1.3 Cerbydau wedi'u gadael

Nid yw cerbydau wedi'u gadael yn wastraff trefol awdurdod lleol ac **nid** ydynt yn cyfrif tuag at LART. Dylid parhau i roi data yn ymwneud â rheoli cerbydau wedi'u gadael yn WasteDataFlow.

3.1.4 Gwastraff ar ôl glanhau traethau

Mae sbwriel o draethau yn cael ei gynnwys yn adran 89(1)(a) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac Atodlen 1(3) Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012 ac felly mae'n wastraff trefol awdurdod lleol at ddibenion LART a osodwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Er mwyn bod yn glir, y tir perthnasol yn y cyd-destun hwn yw ardaloedd ar draethau a ddaw dan reolaeth uniongyrchol yr awdurdod lleol ac y caiff y cyhoedd fynediad iddynt ac sydd uwchben y man y mae'r llanw yn ei gyrraedd pan fydd hi'n ben llanw cymedrig.

Nid yw creaduriaid y môr sydd wedi marw ar y traethau yn cyfrif fel gwastraff ar ôl glanhau traethau.

3.1.5 Bwrdd plastr

Mae bwrdd plastr yn wastraff trefol awdurdod lleol ac mae'n cael ei gasglu mewn cyfleusterau casglu awdurdod lleol a ddarperir o dan adran 51, neu eu casglu o dan adran 45 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Dylid casglu ac ailgylchu bwrdd plastr ar wahân ac ni ddylid ei anfon i safleoedd tirlenwi gyda gwastraff pydradwy.⁵

3.1.6 Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)

Mae lludw gwaelod llosgydd (IBA) [a gweddillion eraill o brosesau troi gwastraff yn ynni, e.e. golosg o broses nwyeddio, ond heb gynnwys gweddillion rheoli llygredd aer (APCR), [gweler isod]] a gynhyrchir ar ôl hylosgi gwastraff trefol arall awdurdod lleol (h.y. gwastraff a gesglir o dan adran 45 a 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn cael ei ystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol.

3.1.7 Gweddillion Rheoli Llygredd Aer (APCR)

Cyfeirir at APCR gan amlaf fel 'lludw', ac mae'n sgil-gynnyrch proses hylosgi gwastraff a phroses cyflwyno deunyddiau i niwtraleiddio neu ddal allyriadau nwyol a gronynnol sy'n deillio o'r broses hylosgi. Mae'r gyfran honno o APCR a gynhyrchir yn uniongyrchol wrth hylosgi gwastraff trefol arall awdurdod lleol (h.y. gwastraff a gesglir o dan adrannau 45 a 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn cael ei hystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol.

Wrth fesur cyfran yr APCR sy'n wastraff trefol awdurdod lleol, mae'n bwysig nad yw'r deunyddiau a ychwanegir at gynnyrch hylosgi i'w niwtraleiddio yn cael eu cynnwys. Ychwanegir y deunyddiau hyn i drin cynnyrch proses hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol ac nid ydynt yn wastraff trefol awdurdod lleol. **Dim ond pwysau sych APCR sy'n tarddu o gynnyrch proses hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol y dylid ei gynnwys yn WasteDataFlow.**

3.1.8 Teiars

Nid yw teiars yn wastraff trefol awdurdod lleol os ydynt yn cael eu casglu fel rhan o gerbydau wedi'u gadael. Pan fydd teiars yn cael eu casglu o dan adrannau 45 neu 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, bydd hyn yn cyfrif tuag at wastraff trefol awdurdod lleol. Disgwylir mai dim nifer fechan o deiars a gaiff eu casglu drwy'r ffyrdd hyn. Os yw awdurdod lleol yn clirio gwastraff sydd wedi'i dipio'n

⁵ Canllawiau ar fwrdd plastr a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd:
http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/PS_007_Landfilling_gypsum_rev_Jan_2011.pdf.

anghyfreithlon yn rhinwedd ei waith fel Awdurdod Casglu Gwastraff neu'r prif awdurdod sbwriel, yna bydd unrhyw deiars a gesglir yn cael ei ystyried yn wastraff trefol awdurdod lleol.

3.1.9 Gwastraff clinigol

Os bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â chartref rhywun i roi triniaeth, ystyrir mai'r gweithiwr gofal iechyd sy'n gyfrifol am unrhyw wastraff a geir yn sgil yr ymweliad hwnnw.

Mae gwastraff hylendid (padiâu misglwyf, clytiau a phadiâu ar gyfer gwlychu/baeddu) yn wastraff trefol awdurdod lleol a gellir naill ai gael gwared arnynt gyda'r gwastraff domestig (ar yr amod nad ydynt yn beryglus), neu eu casglu ar wahân ar gyfer eu hadennill. Bydd unrhyw wastraff clinigol a gesglir gan awdurdod lleol neu ar ei ran o dan adran 45 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn wastraff trefol awdurdod lleol.

3.1.10 Deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gylïau

Mae deunydd sydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a strydoedd a gesglir gan awdurdodau lleol o dan adran 89(2) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael ei ddiffinio fel gwastraff cartrefi yn Atodlen 1(3) Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012 ac maent felly yn wastraff trefol awdurdod lleol.

Mae gwastraff mewn gylïau (gwastraff sy'n cael ei olchi o sianeli draenïau ar ffyrdd a meysydd parcio i botïau tanddaearol) yn cynnwys amrywiol ddeunyddiau gan gynnwys graean, dail a sbwriel. Pan gaiff y rhain eu casglu o dan adran 89(2) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, cânt eu diffinio fel gwastraff cartrefi yn Atodlen 1(3) Rheoliadau Gwastraff a Reolir 2012 ac maent felly yn wastraff trefol awdurdod lleol.

3.1.11 Asbestos

Mae modd i ddeiliaid tai gael gwared ar asbestos mewn safleoedd Amwynder Dinesig o dan adran 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gall awdurdodau lleol hefyd drefnu bod asbestos yn cael ei gasglu o gartrefi o dan adran 45 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Yn y ddau achos bydd y gwastraff yn wastraff trefol awdurdod lleol.

3.2 Ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio

Mae ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio'r deunyddiau sy'n cael eu cadarnhau fel gwastraff trefol awdurdod lleol yn cyfrif at dargedau'r awdurdod lleol o ran ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio, a chyfeirir atynt o hyn ymlaen fel LART.

3.2.1 Diffinio ailgylchu

Er mwyn ystyried gwastraff yn wastraff wedi'i ailgylchu rhaid iddo fodloni'r meini prawf a osodwyd yn Erthygl 3 Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i

Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau)(Cymru) 2011; mae'n rhaid iddo fod wedi mynd drwy weithred ailbroseu fel rhan o weithred adennill fel ei fod wedi'i ailbroseu'n gynnyrch, yn ddeunydd neu'n sylwedd, boed hynny at ei ddiben gwreiddiol neu at ddiben arall. Yng nghyswllt gwastraff o'r fath yn cyfrif at LART, dylid talu sylw i adran 4.3 yn y Canllawiau hyn.

Os yw deunyddiau wedi'u gwrthod yn ystod y broses didoli ar ôl eu casglu, neu wedi'u gwrthod yn y cam ailbroseu am eu bod yn halogwyr, ni ddylid eu cyfrif tuag at LART (oni bai bod yr halogwyr eu hunain yn cael eu hadennill wedyn). Rhaid i'r holl ddeunydd a wrthodir rhwng y broses casglu a'r ailbroseu terfynol gael ei gofnodi cyn belled ag y bo'n ymarferol ac ni chaiff ei gynnwys wrth fesur y cyfraddau adennill drwy'r system WasteDataFlow. Nid yw hyn yn cynnwys deunyddiau a wrthodir yn ystod yr ailbroseu o ganlyniad i'r broses ei hun (e.e. ffibrau byr a gronynnau clai sy'n gydrannau papur ac sy'n cael eu gwrthod wrth ailbroseu papur).

Os collir dŵr yn ystod prosesau sy'n trin gwastraff 'sych ailgylchadwy' (e.e. papur, gwydr, metelau a phlastigau) sydd wedi gwlychu oherwydd glaw neu ffynonellau eraill o ddŵr, nid yw'r dŵr hwnnw'n cael ei ystyried fel rhywbeth sydd wedi'i ailgylchu ac ni chaiff ei gyfrif tuag at LART. Mae hyn yn cynnwys hylifau'r corff sydd mewn cynnyrch hylendid amsugol. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa gyda chompostio (gan gynnwys treulio anaerobig) gwastraff bwyd neu wastraff gwyrdd. Yma, mae pwysau'r deunyddiau mewnbwn (heb gynnwys llygredd) yn cael ei gyfrif tuag at LART. Mae dŵr yn gydran gynhenid o wastraff bwyd a gwastraff gwyrdd ac mae'n cael ei gyfrif tuag at LART ar gyfer y deunyddiau hyn. Nid yw dŵr yn gydran gynhenid deunyddiau 'sych ailgylchadwy' (gan gynnwys cynnyrch hylendid amsugol).

Ni ddylid cyfrif bod unrhyw gynnyrch, deunydd na sylwedd a ddefnyddir ar gyfer ôl-lenwi⁶ (gan gynnwys bio-wastraff wedi'i drin) wedi cael eu hadennill at ddibenion LART a osodwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Pan fydd IBA a geir wrth hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol yn cael ei ailgylchu drwy weithred ailbroseu fel rhan o weithred adennill, gellir cyfrif ei bwysau sych tuag at LART.

Pan fydd APCR a geir wrth hylosgi gwastraff trefol awdurdod lleol yn cael ei ailgylchu drwy weithred ailbroseu fel rhan o weithred adennill, gellir cyfrif pwysau sych y gydran honno o'r APCR hynny tuag at LART. Y llwch fydd hyn, ac mae'n debygol mai cyfran fach fydd hyn o bwysau cyflawn APCR. Os cyflwynir deunyddiau i adweithio gydag isgynnyrch y broses hylosgi, ni fydd unrhyw bwysau APCR yn sgil hynny yn cyfrif at LART.

Mae'n bosib dangos bod IBA a APCR wedi'u hadennill os cydymffurfir â Phrotocol Ansawdd ar gyfer y deunyddiau neu os yw cais i'r 'Panel Diffinio Gwastraff' yn cadarnhau bod meini prawf diwedd oes gwastraff wedi'u bodloni. Bydd Cyfoeth

⁶ Proses adennill yw ôl-lenwi lle bydd gwastraff addas yn cael ei ddefnyddio at ddibenion adfer mewn mannau wedi'u cloddio neu at ddibenion peirianeg wrth dirlunio a lle mae'r gwastraff yn cael ei roi yn lle deunyddiau nad ydynt yn wastraff.

Naturiol Cymru fel Awdurdod Monitro LART yn dweud a yw IBA/APCR wedi cael eu hadennill.

3.2.2 Diffinio paratoi i aildddefnyddio

Er mwyn ystyried gwastraff yn wastraff wedi'i baratoi i aildddefnyddio rhaid iddo fodloni'r meini prawf a osodwyd yn Erthygl 4 Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau)(Cymru) 2011. Yr ail ddewis orau yn yr hierarchaeth gwastraff, ar ôl atal gwastraff, yw paratoi i aildddefnyddio a gall gyfrannu'n sylweddol tuag at leihau ôl-traed carbon ac ôl-traed ecolegol.

Y tair gweithred adennill a ganiateir ar gyfer paratoi i aildddefnyddio yw gwirio, glanhau ac atgyweirio.

Mae'n hynod bwysig bod pob eitem sy'n cael ei pharatoi i aildddefnyddio yn cael ei gwirio'n drwyadl er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn ddiogel, ei bod yn bodloni safonau gofynnol a'i bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r gyfraith cyn cael ei haildddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwirio, profi a rhoi tystysgrif i eitemau trydanol a gwneud yn siŵr bod dodrefn wedi'u gorchuddio ac eitemau eraill yn bodloni'r holl ofynion o ran diogelwch tân.

Mae atgyweirio eitemau yn cynnwys gosod cydrannau neu ddarnau newydd yn lle rhai sydd wedi treulio, wedi torri neu ddim yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys yr holl waith coed sy'n ofynnol i drwsio eitemau pren (gan gynnwys dodrefn), yr holl waith metel ar eitemau perthnasol, gosod gwydr newydd mewn drychau a phethau tebyg, ail-orchuddio dodrefn a phob gweithred arall sy'n angenrheidiol fel bod eitem mewn cyflwr i'w defnyddio ar gyfer ei diben gwreiddiol.

Ar ôl gwirio, glanhau ac atgyweirio eitemau fel eu bod yn barod i gael eu haildddefnyddio, gellir nodi eu pwysau yn WasteDataFlow er mwyn iddynt gyfrif at LART.

3.2.3 Diffinio compostio a threulio anaerobig

Er mwyn ystyried gwastraff yn wastraff wedi'i gompostio, rhaid iddo fodloni'r meini prawf a osodwyd yn Erthygl 5 Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau)(Cymru) 2011. Mae Erthygl 5(1)(a) y Gorchymyn yn cadarnhau, at ddibenion adran 3 Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, fod 'compostio' yn cynnwys prosesau compostio a threulio anaerobig.

Mae'n bosib y gellir ystyried gwastraff bioddiraddadwy (e.e. gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd o'r ardd) yn wastraff wedi'i gompostio os byddant yn cael eu hadennill mewn proses sy'n cynhyrchu cynnyrch, deunydd neu sylwedd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu.

Os yw compost a gweddillion treuliad anaerobig yn cydymffurfio ag Erthygl 5 y Gorchymyn, y swm yr ystyrir ei fod wedi'i adennill at ddibenion y targedau a osodwyd dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 fydd pwysau'r mewnbwn i gyfleuster compostio neu dreulio anaerobig heb gynnwys yr eitemau a wrthodir (gan

gynnwys plastigau, metelau, gwydr, eitemau sy'n rhy fawr a lle y bo'n briodol, bagiau startsh corn heb eu diraddio).

3.3 Ailgylchu gwastraff penodol

Gall y gwastraff canlynol gyfrif at LART os byddant yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd, fel y nodwyd yn Erthygl 3 y Gorchymyn.

3.3.1 Pridd a rwbel

Gall pridd a rwbel gyfrif at LART os byddant yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd.

3.3.2 Gwastraff ar ôl glanhau traethau

Os bydd sbwriel a gesglir oddi ar draethau yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd, gall hyn gyfrif at LART.

3.3.3 Bwrdd plastr

Gall bwrdd plastr sy'n mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd, gyfrif at LART.

3.3.4 Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA)

Gall IBA gyfrif at LART os bydd yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynhyrchion, sylweddau neu ddeunyddiau yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn.

3.3.5 APCR

Gall APCR gyfrif at LART os byddant yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynhyrchion, sylweddau neu ddeunyddiau yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn, yn gyson â pharagraff 3.3.1.

3.3.6 Teiars

Gall ailgylchu teiars gyfrif at LART os byddant yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynhyrchion, sylweddau neu ddeunyddiau yn unol ag Erthygl 3 y Gorchymyn.

3.3.7 Gwastraff clinigol

Mae'n bosib ailgylchu rhywfaint o wastraff sy'n cael ei ystyried yn wastraff clinigol. Y brif enghraifft o hyn yw cynnyrch hylendid amsugol fel clytiau a phadiau ar gyfer gwlychu/baeddu. Mae'r gwastraff hyn yn cael eu categoreiddio yn y Rhestr o Wastraff fel a ganlyn:

18 01 04 gwastraff nad oes angen trefniadau arbennig ar gyfer ei gasglu a'i waredu er mwyn atal haint (er enghraifft dresin, castin plastr, lliain, dillad y gellir eu taflu, clytiau).

Gall y mathau hyn o wastraff gyfrif at LART os byddant yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd. Nid yw unrhyw hylifau'r corff mewn gwastraff a gaiff ei ddanfôn er mwyn ei ailgylchu yn rhan o'r cynnyrch, ac ni fydd yn cael ei ailgylchu i greu cynhyrchion, deunyddiau neu sylweddau newydd ac **ni chaiff** ei gynnwys yn y ffigurau ailgylchu. Dim ond i bwysau sych y deunydd a gaiff ei ailgylchu y mae % cyfradd ailgylchu ar gyfer cynnyrch hylendid amsugol yn berthnasol.

3.3.8 Deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gyliau

Gall deunydd wedi'i sgubo oddi ar strydoedd a dail wedi disgyn gyfrif at LART os byddant yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynhyrchion, sylwedd neu ddeunydd, fel y nodwyd yn Erthygl 3 y Gorchymyn. Mae'r un peth yn wir os byddant yn cael eu compostio neu eu treulio'n anaerobig i gynhyrchu cynhyrchion, sylwedd neu ddeunydd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu fel y nodwyd yn Erthygl 5 y Gorchymyn.

3.3.9 Pren

Gall pren a chynnyrch pren gyfrif at LART ar yr amod eu bod yn mynd drwy weithred ailbrosesu fel rhan o weithred adennill i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd, fel y nodwyd yn Erthygl 3 y Gorchymyn. Mae'r un peth yn wir os byddant yn cael eu compostio neu eu treulio'n anaerobig i gynhyrchu cynnyrch, sylwedd neu ddeunydd y gellir ei ddefnyddio fel cyflyrydd pridd, gwrtaith neu gyfrwng tyfu fel y nodwyd yn Erthygl 5 y Gorchymyn.

4.0 Monitro ac adrodd

Bwriad LART a osodir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 yw hyrwyddo lefelau adennill uchel a sicrhau buddion cysylltiedig. Caiff y rhain eu monitro drwy adrodd data yn gywir ac yn amserol, ac mae hyn yn hollbwysig i lwyddiant y ddeddfwriaeth sy'n gosod targedau ac i'r strategaethau y tu ôl i'r ddeddfwriaeth honno.

4.1 WasteDataFlow a gofynion adrodd

Mae Rheoliad 5 Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 yn gorfodi awdurdodau lleol i ddefnyddio cronfa ddata genedlaethol WasteDataFlow ar gyfer gwastraff fel ffordd o adrodd am lif gwastraff a mesur cyfraddau adennill awdurdod lleol.

Tri mis yw hyd y cyfnodau adrodd presennol ac ar hyn o bryd rhaid cyflwyno ffurflenni data o fewn un mis i ddiwedd y cyfnod tri mis.

4.2 Cyrchfannau a chyfraddau gwrthod

Rhaid i LART a osodir ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 gael eu cofnodi'n gywir a dim ond deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu, wedi'u paratoi i ailddefnyddio neu eu compostio (gan gynnwys wedi'u treulio'n anaerobig) a gaiff eu cynnwys wrth fesur cyfraddau adennill awdurdod lleol. Mae cywirdeb y mesuriad hwn yn dibynnu ar gofnodi cyfraddau gwrthod yn gywir (gweler adran 3.2.1), gan gynnwys y rheini gan gyfleusterau didoli ac ailbrosewyr - pa un ai bod y rhain yn rhan o'r broses drwy gcontractau tymor hir neu drwy'r 'farchnad ar y pryd'. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn dilyn llif deunyddiau ar ôl iddynt gael eu casglu, cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Mae'n bwysig bod cyrchfannau yn cael eu nodi cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Dyma fydd cyrchfannau deunyddiau:

- Yr ailbrosesydd deunyddiau lle mae deunyddiau yn cael eu hailgylchu, eu paratoi i ailddefnyddio a'u compostio (gan gynnwys eu treulio'n anaerobig) i greu cynnyrch, deunydd neu sylwedd.
- Y cyfleuster gwaredu lle mae deunyddiau a wrthodir wrth dddidoli deunydd ailgylchadwy, wrth baratoi eitemau ar gyfer eu hailddefnyddio neu eu compostio (gan gynnwys treulio anaerobig) yn cael eu gwaredu neu'n cael eu defnyddio mewn proses adennill ynni.
- Y wlad gyntaf lle mae deunydd y bwriedir ei adennill (fel y cyfeirir ato yn y Cyflwyniad i'r Canllawiau hyn) yn cael ei allforio y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Lle y bo'n ymarferol, dylid monitro llif deunyddiau o'r adeg y cânt eu casglu hyd nes iddynt gyrraedd y gyrchfan briodol – gan gynnwys nodi cyfleusterau didoli yn y canol. Mae cwestiwn 100 yn WasteDataFlow wedi cael ei ddatblygu i helpu i adrodd am lif gwastraff ac mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi bod yn defnyddio Cwestiwn 100 o 1af Ebrill 2012 ymlaen.

Weithiau bydd deunyddiau a gesglir yn mynd drwy sawl cam rhwng casglu ac ailbrosesu ac yn ystod y camau hyn gall gwastraff o wahanol awdurdodau lleol gymysgu â gwastraff nad yw'n wastraff awdurdod lleol. Mae'n bosib hefyd yr anfonir y deunyddiau hyn at fwy nag un ailbrosesydd. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn adrodd am gyfleusterau didoli yn y canol, cyfraddau gwrthod a chyrchfannau a hynny mor gynhwysfawr ag y gellir yn ymarferol.

Os yw awdurdodau lleol yn defnyddio contractwyr ar gyfer casglu a didoli deunyddiau gwastraff, mae'n bwysig bod eu contractau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno data cywir ac amserol i'r awdurdodau lleol. Yr hyn a fyddai'n gymorth i gyflawni hyn yw bod pob un sy'n cyflwyno tendr am gontractau yn gorfod cytuno i ddefnyddio'r dulliau a geir yn Safon a geir yn Gyhoeddus 402 ar gyfer adrodd yn ôl wrth awdurdodau lleol. Ar ôl i ddeunyddiau fynd drwy gam cyntaf y broses didoli, argymhellir mai'r cyfleuster cam cyntaf sy'n gyfrifol am ofyn am wybodaeth am gyfraddau gwrthod a chyrchfannau nesaf gan y cyfleusterau eilaidd. Gall y cyfleusterau sylfaenol drosglwyddo'r wybodaeth wedyn i'r awdurdod/au lleol. Yn yr un modd, mae'n bosib y bydd cyfleusterau eilaidd yn cael gwybodaeth gan gyfleusterau trydyddol ac yn trosglwyddo hyn yn ôl i'r cyfleuster cynradd – ac yn y blaen. Sylweddolir y bydd y dasg o fonitro ac adrodd yn gywir am ddeunyddiau a wrthodir a chyrchfannau nesaf yn fwy anos wrth i ddeunyddiau fynd drwy fwy o gamau didoli a thrin cyn cael eu hailbrosesu. Bwriad y dulliau a amlinellir yn adran 4.3 yw helpu i rwyddhau'r broses adrodd. Ar gyfer deunyddiau â phwysau bach sydd wedi bod drwy sawl cyfleuster gwahanol, mae'n bosib bod yr amser a'r gost o gasglu a dychwelyd data yn fwy na'r manteision o ddilyn trywydd y deunydd. Os yw awdurdodau lleol yn credu mai hyn yw'r achos, dylent ymgynghori â'r Awdurdod Monitro i geisio cael cytundeb ynghylch diffiniad cyrchfan effeithiol. Bydd yr Awdurdod Monitro yn cynghori ynghylch unrhyw ddulliau *de minimis* i'w cymryd.

4.3 Dyrannu deunydd a wrthodir a samplu mewn Cyfleusterau Adennill Deunyddiau a chyfleusterau gwastraff eraill

Y ffordd symlaf o ddyrannu deunyddiau a wrthodir yw ar sail pro rata. Bydd cyfleuster gwastraff yn penderfynu faint o ddeunydd a gaiff ei roi iddo gan amryw ffynonellau, pa un ai bod y cyfleuster yn pentyrru deunyddiau neu eu didoli cyn eu pentyrru. Felly mae'n hawdd adrodd y ganran o fewnbwn i gyfleuster gan awdurdod lleol penodol. Bydd yr allbwn o gyfleuster didoli mewn tri chategori syml:

- Deunydd a wrthodwyd ar gyfer ei waredu.
- Deunydd sydd wedi'i ddidoli i safon a dderbynnir gan ailbrosesydd.
- Deunydd sydd wedi'i ddidoli ond y bydd angen ei ddidoli'n bellach cyn y bydd ailbrosesydd yn ei dderbyn.

Darperir yr enghraifft ganlynol i esbonio sut dylid mynd ati i fesur.

Enghraifft 1

Os yw 10% o'r deunydd a dderbynnir mewn cyfleuster didoli gwastraff yn cael ei wrthod ar gyfer ei waredu neu i droi gwastraff yn ynni, yna bydd 10% o'r holl fewnbwn i'r cyfleuster hwnnw gan awdurdod lleol penodol yn cael ei ystyried fel deunydd a wrthodwyd ar gyfer ei waredu. Felly, os bydd awdurdod lleol yn anfon 1000 tonnelli i gyfleuster didoli sydd â chyfradd gwrthod deunydd gyffredinol o 10%, yna bydd 100 tonnelli yn cael ei nodi yn WasteDataFlow fel deunydd wedi'i wrthod.

Bydd deunydd o safon ddigonol a gaiff ei dderbyn gan ailbrosesydd yn cynnwys rhywfaint o ddeunyddiau nad ydynt yn ddeunyddiau targed a gaiff eu gwrthod gan yr ailbrosesydd. Oni bai fod y deunyddiau hyn nad ydynt yn ddeunyddiau targed yn cael eu hailgylchu o ganlyniad i drefniadau a wneir gan yr ailbrosesydd, byddant yn cael eu gwrthod ar gyfer eu gwaredu neu eu hanfon i droi gwastraff yn ynni. Yn yr un modd, bydd angen eu cyfrif fel deunydd wedi'i wrthod yn WasteDataFlow.

Os yw 70% o'r deunydd mewnbyn i'r Cyfleuster Adennill Deunyddiau yn cael ei anfon at ailbrosesydd sydd wedyn yn gwrthod 10% o'r deunydd a dderbynnir, yna bydd 7% o'r mewnbyn gan awdurdod lleol penodol yn ddeunydd a wrthodwyd ar gyfer ei waredu neu i droi gwastraff yn ynni mewn ailbrosesydd. Felly, os bydd awdurdod lleol yn anfon 1000 tonnelli i gyfleuster didoli, yna bydd 70 tonnelli yn cael ei nodi yn WasteDataFlow fel deunydd wedi'i wrthod yn yr ailbrosesydd.

Bydd deunydd nad yw'n cyrraedd safon dderbyniol yr ailbrosesydd yn cael ei anfon ar gyfer didoli pellach (eilaidd, trydyddol, ayb) nes y bydd o safon sy'n dderbyniol gan ailbrosesydd.

Os yw 20% o'r deunydd mewnbyn i'r Cyfleuster Adennill Deunyddiau yn cael ei anfon at gyfleuster didoli eilaidd ac oddi yno at ailbroseswyr a'i waredu, neu i droi gwastraff yn ynni, sy'n golygu bod hanner wedi'i ailgylchu a hanner wedi'i waredu, neu wedi'i anfon er mwyn adennill ynni, yna bydd 100 tonnelli o'r 1000 tonnelli o fewnbwn gan awdurdod lleol penodol yn cael ei wrthod ar gyfer ei waredu neu i droi gwastraff yn ynni. Bydd yn cael ei nodi yn WasteDataFlow fel deunydd wedi'i wrthod.


Os bydd deunydd yn cael ei wrthod drwy'r tri chategori gwahanol a amlinellir, yna dylai awdurdod lleol sy'n anfon 1000 tonnelli i'r cyfleuster didoli cychwynnol nodi yn WasteDataFlow fod:

270 tonnelli wedi cael ei wrthod ar gyfer ei waredu neu i droi gwastraff yn ynni; a bod

730 tonnelli wedi cael ei ailgylchu.

Mae ffigur 1 yn dangos tri phrif lwybr – a thrwy'r llwybrau hyn y cynhyrchir deunyddiau wedi'u gwrthod. Dylid eu cofnodi yn WasteDataFlow, gan ddefnyddio Enghraifft 1 uchod.

Ffigur 1 - Colli deunyddiau oherwydd eu bod yn cael eu gwrthod a'r symiau i'w cofnodi yn WasteDataFlow fel deunydd a wrthodir (mewn print trwm)



Nid oes wahaniaeth sut y caiff deunydd ei gasglu, dylai'r un dull fel y dangoswyd yn Enghraifft 1 gael ei ddefnyddio gyda phob deunydd, Cyfleusterau Adennill Deunyddiau, gorsafoddd pentyrru ac ailbroseswyr. Rhaid i bob awdurdod lleol gymryd pob cam ymarferol a rhesymol i adrodd yn gywir yr holl ddeunyddiau a wrthodir ac nad ydynt o ganlyniad yn cael eu hailgylchu, yn gyson â'r cyfyngiadau a amlinellwyd yn adran 4.2.

Bydd gan awdurdodau lleol wahanol lefelau llygredd yn y deunyddiau y maent yn eu casglu, yn dibynnu ar sut y caiff y deunydd ei gasglu. Byddant ar eu hennill ac ar eu colled yn sgil system o gofnodi yn seiliedig ar ddosrannu. Mae hyn yn rhywbeth y dylai'r awdurdodau lleol ei ystyried wrth benderfynu ar y dewis o gyfleusterau didoli ar gyfer eu deunyddiau.

Ffordd arall yn lle dosrannu yw samplu. Yn lle asesiadau pro rata o ddeunydd a wrthodir yn seiliedig ar fewnbwn, bydd y mewnbwn ei hun yn cael ei samplu a

bydd amcangyfrif o'r deunydd tebygol a wrthodir yn cael ei bennu ar sail asesiad o ba mor ailgylchadwy yw cydrannau'r deunyddiau. Gall y dull hwn arwain at ddata mwy cywir ar gyfer pob awdurdod unigol; ond gall hefyd fod yn fwy o waith. Dim ond ar ôl ymgynghori gyda'r Awdurdod Monitro y dylid defnyddio unrhyw ddull sy'n seiliedig ar samplu mewnbwn deunyddiau ar gyfer eu didoli. Rhaid i'r Awdurdod Monitro fod yn sicr bod y samplu yn cynrychioli'r mewnbwn, bod y samplu'n digwydd ar gyfnodau priodol a bod cadernid y protocolau ac arferion samplu yn golygu y bydd data cywir yn cael ei ddarparu i'w gofnodi yn WasteDataFlow. Dilynwch y ddolen ganlynol i weld Canllawiau'r Awdurdod Monitro ar drefn samplu:

<http://www.environment-agency.gov.uk/business/topics/waste/138482.aspx>

4.4 Mesur y gyfradd adennill (ailgylchu, paratoi i aildefnyddio a chompostio) drwy WasteDataFlow

Bydd mesur cyfraddau adennill awdurdod lleol (ailgylchu, paratoi i aildefnyddio a chompostio) yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan awdurdodau lleol i WasteDataFlow. Bydd y perfformiad cyffredinol o'i gymharu â'r targedau yn cael ei fesur drwy ystyried:

Cyfanswm yr Adennill/Cyfanswm Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol x 100, fel y nodwyd yn adran 2 y Canllawiau hyn.

Cyfanswm yr Adennill yw swm yr holl fathau o ddeunydd perthnasol y nodir yn WasteDataFlow (heb gynnwys cerbydau wedi'u gadael) eu bod wedi'u hanfon i gyrchfannau, h.y. y dunnell a nodir o'i gymharu â'r Gyrchfan Derfynol yng Nghwestiwn 100 (yr un fath â Chwestiynau 19, 19a a 35 gynt).

Mae'r dull newydd hwn yn symleiddio'r hafaliad yn fawr iawn ac mae'n cyfleu'n fwy cywir yr hyn sy'n cael ei ailgylchu mewn gwirionedd o fewn y cyfnod hwnnw a'r ffordd y mae gwastraff yn cael ei reoli yn gyffredinol gan awdurdod lleol.

